



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Bartneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013

gan

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a
Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/02/2014

Cyd-destun

Cefndir cyffredinol

Mae pumed ran o fwrdeistref sirol Merthyr Tudful wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r fwrdeistref sirol wedi'i rhannu'n 11 ward etholiadol a'r brif dref yw Merthyr Tudful, sydd â phoblogaeth o ryw 30,000.

Ym mis Rhagfyr 2012, 16.8% oedd canran y boblogaeth a oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn is o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 25.8%. Mae tua 98% o'r boblogaeth yn bobl gwyn Prydeinig a daw 2% o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Cyflawniad addysgol

Mae data Ystadegau Cymru, Rhagfyr 2012, yn dangos bod 13% o oedolion oedran gweithio'r fwrdeistref sirol heb unrhyw gymwysterau. Mae hyn ddau bwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 11%. Fodd bynnag, mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â 2011, pan oedd y ganran yn 18.8%, a 2009, pan oedd yn 21.4%. Mae'r duedd wedi bod yn gwella dros y pedair blynedd diwethaf.

Yn 2012, 17.7% oedd canran y boblogaeth â chymwysterau islaw lefel 2 ac mae hyn hefyd yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru, sef 15.1%. Fodd bynnag, mae tueddiadau ar gyfer y pedair blynedd diwethaf yn dangos bod y ganran yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 19.3% yn 2009.

Roedd nifer yr oedolion â chymwysterau uwch yn y fwrdeistref sirol yn 2012 yn is o lawer na chyfartaledd Cymru, gyda 26.5% a chymwysterau hyd at lefel 4 o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 31.5%. Fodd bynnag, dyma duedd arall sy'n gwella'n gyson, o 19.3% yn 2009 i 22.2% yn 2011.

Gweithgarwch economaidd

Mae ystadegau Cymru, ar gyfer Mawrth 2013, yn dangos bod 62.8% o'r boblogaeth mewn gwaith. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 67.6%. At ei gilydd, mae dosbarthiad cyfartal o bobl yn cael eu cyflogi ar draws feysydd galwedigaethol, heb unrhyw ddiwydiant yn drech na'r lleill. O'r rhai mewn gwaith, caiff 29% eu cyflogi mewn gwaith llaw, fel gweithredwyr offer a pheiriannau prosesu, ac mae 20% yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau personol neu werthu. Mae tua 25% yn cael eu cyflogi mewn swyddi rheoli neu swyddi proffesiynol. Mae gan y sir lai o bobl sy'n teithio i ardaloedd eraill i weithio na'r rhan fwyaf o siroedd eraill yng Nghymru, gyda 65% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn gweithio ym Merthyr Tudful ei hun.

Mae data ar gyfer Cymru yn 2013 yn dangos bod anweithgarwch economaidd yn y sir wedi aros yn gyson am y pedair blynedd diwethaf, sef tua 26%. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 22.3%. Roedd nifer y trigolion a oedd yn hawlio budd-daliadau yn Chwefror 2013 yn cyfrif am 20.7% o'r boblogaeth. Dyma'r nifer ail uchaf o hawlwr yng Nghymru. O'r rhain, roedd 12.1% yn hawlio budd-dal analluogrwydd ac roedd 6.2% yn hawlio ceiswyr gwaith.

Ffyniant

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 yn dangos mai Merthyr Tudful yw'r awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae dau ddeg pump y cant o gymdogaethau Merthyr yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae 44% yn yr 20% uchaf. Mae gan Ferthyr Tudful dri o ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ar draws y sir.

Partneriaeth Dysgu Cymunedol Merthyr Tudful

Mae pedwar prif ddarparwr ym Mhartneriaeth Dysgu Cymunedol Merthyr Tudful:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
- Coleg Merthyr
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Merthyr
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr yn cyflwyno tua 15% o'r ddarpariaeth. Mae tua 32% yn ddarpariaeth freiniol, gan gynnwys Addysg Sylfaenol i Oedolion a SSIE. Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn cyflwyno tua 53% o'r ddarpariaeth, gan gynnwys darpariaeth graidd a chyswllt dysgu.

Crynodeb

Perfformiad presennol y darparwr	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r darparwr	Rhagorol

Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol y bartneriaeth yn rhagorol oherwydd:

- roedd nifer y dysgwyr a gwblhaodd eu cwrs yn llwyddiannus yn 2012 yn un o'r gorau yn y sector;
- mae dysgwyr o ardaloedd o ddifreintedd yn cyflawni'n well na dysgwyr tebyg mewn ardaloedd eraill o Gymru;
- mae'r bartneriaeth yn cyflwyno ystod eang o raglenni sy'n ateb anghenion dysgu a lles dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn effeithiol iawn;
- caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n effeithiol i roi ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae'n mynd i'r afael ag agenda gwrthdodi Llywodraeth Cymru yn eithriadol o dda; ac
- mae'r bartneriaeth yn rhoi blaenoriaeth uchel i gyrsiau sy'n gwella medrau llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd dysgwyr.

Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r bartneriaeth yn rhagorol oherwydd:

- mae'r bartneriaeth wedi'i seilio ar gydraddoldeb, didwylledd a gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Merthyr Tudful;
- mae partneriaid yn rhannu ymddiriedaeth a pharch sylweddol tuag at ei gilydd, sy'n eu galluogi i gefnogi ei gilydd a herio deilliannau a safonau'n gadarn;
- caiff cyfrifoldeb am y meysydd cyflwyno sydd â blaenoriaeth ei rannu rhwng y partneriaid;
- mae'r cynllunio strategol ym mhartneriaeth dysgu cymunedol Merthyr Tudful yn gryf iawn;
- mae cyfeiriad strategol cryf i gynnig gwasanaeth hollgynhwysol sy'n hybu iechyd a lles ochr yn ochr â'r dysgu perthnasol; ac
- mae'r cwricwlwm a chyflwyno'r ddarpariaeth yn cael eu cynllunio'n feddylgar iawn ac mae cydlyniad arbennig iawn rhwng y fformat a'r blaenoriaethau yn y cynllun integredig sengl, y cynllun corfforaethol a'r strategaeth dysgu cymunedol.

Argymhellion

- A1 Adolygu'r ddarpariaeth SSIE i wneud yn siŵr ei bod yn ateb y galw ym Merthyr Tudful
- A2 Cynnal archwiliad llawn o leoliadau'r bartneriaeth i wneud yn siŵr bod cyflwr yr adeiladau'n bodloni gofynion dysgwyr
- A3 Hybu'r Gymraeg ymhellach a gwella'r defnydd ohoni

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y bartneriaeth yn cynnwys argymhellion Estyn yn y Cynllun Datblygu Ansawdd a ddarperir i Lywodraeth Cymru. Bydd Estyn yn gwahodd y bartneriaeth i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Rhagorol

Safonau: Rhagorol

Mae cyflawniad dysgwyr sy'n oedolion ym Merthyr Tudful yn rhagorol. Yn 2011-2012, roedd y cyfraddau llwyddiant a gyflawnwyd gan oedolion sy'n ddysgwyr ym Merthyr Tudful ymhlith y gorau yn y sector, sef 86.5%. Roedd y cyfraddau llwyddiant uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol rhwng 2010 a 2012 ac fe wnaethant wella bron tri phwynt canran yn ystod y cyfnod hwnnw.

Daw hanner yr oedolion sy'n ddysgwyr ym Merthyr Tudful o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol a Chymru. Mae hyn ddwywaith y cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r dysgwyr hyn yn llwyddo'n well ar bob lefel o gymharu â dysgwyr o ardaloedd tebyg ar draws Cymru, ac maent yn llwyddo cystal â dysgwyr eraill ym Merthyr Tudful.

Mae dysgwyr gwrywaidd a benywaidd fel ei gilydd yn cyflawni yn unol â rhai o'r cyfraddau llwyddiant gorau yn y sector. Mae canran uwch o ddynion yn cymryd rhan mewn dysgu ym Merthyr Tudful nag mewn ardaloedd eraill o Gymru. Fe wnaeth dysgwyr gwrywaidd wella'u cyfraddau llwyddiant ychydig dros wyth pwynt canran rhwng 2010 a 2012 i 89%. Cyflawnont gyfraddau llwyddiant gwell yn 2011-2012 na dysgwyr gwrywaidd mewn ardaloedd eraill ac yn well na dysgwyr benywaidd ym Merthyr Tudful. Fodd bynnag, gyda chanran o 85% yn 2011-2012, fe wnaeth dysgwyr benywaidd ym Merthyr Tudful hefyd gyflawni cyfraddau llwyddiant uwch na'r cymharydd cenedlaethol, sef 81%.

Mae'r dysgwyr sy'n oedolion yn symud ymlaen yn dda i addysg bellach, gwaith a hyfforddiant. Mae llawer o ddysgwyr o raglen Porth Merched Gogledd Merthyr yn gwneud cynnydd da gan fynd ymlaen i addysg bellach a dilyn cyrsiau astudiaethau busnes, mynediad at addysg uwch, a gofal plant. Mae ychydig ddysgwyr yn y rhaglen hon hefyd yn cymryd rhan mewn dysgu arall gyda gwahanol ddarparwyr ar yr un pryd. Mae ychydig ddysgwyr yn ymgymryd â rolau gwirfoddol fel mentoriaid, neu'n hyfforddi fel tiwtoriaid ac yn cyflwyno dysgu i bobl eraill.

Mae mwyafrif y dysgwyr mewn rhaglenni teuluol yn gwella'u medrau sylfaenol ac yn cyflawni cymwysterau perthnasol. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn y dosbarthiadau a arsylwyd yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn gweithio'n hyderus ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau. Mae dysgwyr mewn llawer o ddsbarthiadau yn gosod targedau byrdymor uchelgeisiol iddynt eu hunain ac mae ganddynt safbwynt clir ynghylch eu nodau dysgu yn y dyfodol.

Mae llawer o ddysgwyr mewn dosbarthiadau addysg sylfaenol i oedolion, ac ar draws y ddarpariaeth, yn gwella'u medrau llythrennedd yn dda. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol i feysydd dysgu eraill ac i fywyd. Mae dysgwyr yn yr

amrywiaeth eang o raglenni teuluol yn defnyddio'u medrau'n dda iawn i ategu dysgu eu plant. Mae dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni cyflogadwyedd yn datblygu ystod o fedrau bywyd ac yn defnyddio'r rhain yn dda i geisio cyflogaeth. Mae ychydig o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn symud ymlaen i gyrsiau addysg bellach amser llawn, gan gynnwys gofal plant, astudiaethau busnes, cyrsiau TGAU ac addysg uwch. Mae dysgwyr mewn llawer o ddsbarthiadau ar draws y ddarpariaeth yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus ac yn ymgymryd ag ymchwil ac yn ymestyn eu dysgu.

Mae dysgwyr mewn ychydig ddsbarthiadau'n datblygu eu dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg ac agweddau ar fywyd Cymru yn briodol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw dysgwyr yn gwella'u dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg nac yn cysylltu eu dysgu â Chymru yn ddigon da.

Mae dysgwyr sy'n oedolion o oedran gweithio wedi gweithio'n dda iawn i wella lefelau eu cymwysterau yn gynt na'r duedd genedlaethol. Mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr yn y bartneriaeth wedi gwella yn unol â'r gostyngiad yn nifer yr oedolion yn y fwrdeistref sirol sydd heb gymwysterau ac yn unol â'r nifer cynyddol o bobl sy'n gymwys hyd at lefel 2.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn llawn cymhelliant, yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu dysgu. Mae llawer o ddysgwyr yn cefnogi eu hunain yn dda, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb dysgwyr. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau eu cwrs ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ennill cymhwyster defnyddiol. Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu ddsbarthiadau a'u gweithgareddau, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella'u dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw a lles yn briodol. Enilliant hunan-barch a hyder drwy ddefnyddio'r medrau y maent yn eu dysgu yn eu bywyd teuluol ac yn y gymuned. Mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u medrau bywyd ac yn datblygu medrau pwysig sy'n eu helpu i ddod yn fwy annibynnol yn effeithiol iawn.

Mae mwyafrif o ddysgwyr ar gyrsiau cyflogadwyedd yn cael cyfleoedd gwirfoddoli gwerthfawr mewn ystod eang o leoliadau cymunedol sy'n gwneud defnydd da o'r medrau y maent wedi'u dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiect Tai Gwydr ar gyfer garddwriaeth, grwpiau cymorth MIND a'r rhaglen Mentro Allan. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hyder mewn lleoliadau cymdeithasol a dysgu.

Mae dysgwyr yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio'r cwricwlwm drwy'r fforymau i ddysgwyr a holiaduron dysgwyr. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gwerthfawrogi ymateb y bartneriaeth i lais y dysgwr a'r cyfleoedd dysgu helaeth sydd ar gael iddynt.

Mae llawer o ddysgwyr wedi datblygu hoffter mawr o ddysgu ac maent yn ennill medrau personol a chymdeithasol a medrau cyflogadwyedd gwerthfawr, gan arwain at fyw o gynhwysiant cymdeithasol. Maent yn gwella'u hyder, eu medrau magu plant a'u medrau dysgu'n annibynnol yn effeithiol iawn.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod eang o raglenni sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn effeithiol iawn. Mae'n rhoi ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol wrth gynllunio'i raglenni ac mae'n mynd i'r afael ag agenda gwrthdodi llywodraeth Cymru yn eithriadol o dda. Mae'r bartneriaeth yn rhoi blaenoriaeth uchel i gyrsiau sy'n gwella medrau llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd dysgwyr. Mae'r ddarpariaeth dargedig hon yn cefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod helaeth o gyfleoedd dysgu a hyfforddi, gan gynnwys cyrsiau blasu, cyrsiau cyn mynediad, cyrsiau yn y gymuned a chyrsiau lefel mynediad mewn addysg bellach.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol iawn gydag ystod eang o bartneriaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau ieuchyd, gwirfoddol a chymunedol, i gynnig ystod eang o gyrsiau. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau a'u hunanhyder. Mae Cymunedau yn Gyntaf, er enghraifft, yn cyflwyno ystod dda o gyrsiau rhagflas lle y mae dysgwyr yn rhoi cynnig ar yr hyn sydd ar gael cyn ymuno â chwrs yn ffurfiol. Mae llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr o'r cyrsiau cychwynnol hyn. Mae dilyniant rhwng cyrsiau yn ddi-dor o fewn yr amrywiol ddarparwyr a rhyngddynt.

Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno darpariaeth effeithiol iawn i ddysgwyr er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae staff yn cynnwys y medrau hyn yn dda mewn ystod o gyrsiau, fel y rhaglen Iaith a Chwarae, sy'n helpu rhieni i gefnogi dysgu cynnar eu plant. Mae'r bartneriaeth yn datblygu cysylltiadau agos iawn â chymdeithasau lleol i leiafrifoedd ethnig sy'n helpu'r rhai sydd wedi mudo'n ddiweddar i ymgartrefu yn y gymuned. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer SSIE yn dda at ei gilydd, ond oherwydd y galw cynyddol, nid yw pob dysgwr yn gallu manteisio ar y cyrsiau hyn.

Mae'r cynllun iaith Gymraeg a ddrafftiwyd yn ddiweddar yn fenter gyffrous, sy'n mynd ati i ddatblygu dosbarthiadau cyfrwng Gymraeg ym Merthyr Tudful. Mae amrywiaeth o bartneriaid brwdfrydig yn cydweithio'n dda i gynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach. Mae Canolfan Soar, sef y ganolfan Gymraeg leol, yn cynnal yr holl gyrsiau Cymraeg a dwyieithog. Mae'r bartneriaeth wedi cynyddu nifer y cyrsiau Cymraeg a dwyieithog blasu a llawn yn raddol, ond mae lle i ddatblygu ymhellach. Mae llawer o gyrsiau'n ymgorffori'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol, er enghraifft mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y rhaglenni Mentro Allan. Mae lleiafrif o ddosbarthiadau hefyd yn defnyddio ymadroddion Cymraeg achlysurol yn briodol.

Mae ychydig gyrsiau'n cyflwyno dysgwyr i addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae'r Prosiect Tŷ Gwydr ym Mharc Cyfarthfa, er enghraifft, yn helpu dysgwyr ag anghenion ychwanegol i ddatblygu eu medrau garddio. Fodd bynnag, nid yw pob dosbarth yn rhoi digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy drwy gyd-destun eu dysgu.

Mae prosiectau'r Pentref Byd-eang a'r Wythnos Dreftadaeth yn datblygu dinasyddiaeth fyd-eang yn dda.

Addysgu: Da

Mae'r addysgu'n gyson dda neu well ar draws y bartneriaeth.

Mae tiwtoriaid yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a defnyddiant hon yn dda i gynllunio sesiynau clir ac effeithiol, sydd â ffocws. Mewn sesiynau ymarferol, mae tiwtoriaid yn rhoi arddangosiadau cynhwysfawr ar sut i ddefnyddio deunyddiau ac offer, ac mewn sesiynau damcaniaethol, maent yn addysgu'r dosbarth cyfan yn dda fel man cychwyn i alluogi dysgwyr i fyfyrio ac adalw dysgu blaenorol. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio technegau holi effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o lefelau hyder dysgwyr ac maent yn anelu cwestiynau ac yn trefnu gweithgareddau'r dosbarth yn sensitif i sicrhau y gall yr holl ddysgwyr gymryd rhan yn llawn.

Mae tiwtoriaid yn talu sylw da iawn i anghenion unigol dysgwyr ac maent yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymestyn eu dysgu drwy eu prosiectau a'u diddordebau personol. Mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod eang o adnoddau ysgogol sy'n gysylltiedig â'u pwnc. Mae bron pob tiwtor yn defnyddio'r rhyngwyd yn dda i gynnig enghreifftiau sy'n gysylltiedig â'r pwnc, i gynorthwyo dysgwyr â'u dysgu neu i annog dysgwyr i gwblhau eu cwrs. Pan fydd dysgwyr yn colli sesiwn, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn anfon neges e-bost bersonol atynt a'r gwaith a wnaed er mwyn eu hannog i barhau i gymryd rhan. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gadw dysgwyr a deilliannau dysgwyr.

Ym mron pob achos, mae tiwtoriaid yn talu sylw da i fedrau llythrennedd a rhifedd lle bo'r rhain yn codi mewn sesiynau. Mewn cyrsiau a luniwyd i helpu dysgwyr i wneud cais am swyddi, mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddeall sut i ysgrifennu ceisiadau mewn iaith safonol a defnyddio iaith briodol mewn cyfweiliadau.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn dda i gynnig cyfleoedd da i ddysgwyr asesu a chofnodi eu dysgu eu hunain ar ddechrau, yn ystod ac ar ddiwedd y cwrs. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn rhoi adborth llafar rheolaidd i ddysgwyr, sy'n canolbwyntio'n dda ar yr hyn maent wedi'i gyflawni a'r camau nesaf mae angen iddynt eu cymryd. Mae llawer o diwtoriaid yn gwneud defnydd cynyddol dda o TGCh, fel dyfeisiau llechen, i gofnodi cynnydd dysgwyr drwy fideo a ffotograffau. Mae'r cofnodion hyn yn helpu i ddatblygu hyder dysgwyr oherwydd gwelant eu cynnydd yn eu dysgu gydag amser. Ar gyrsiau sy'n gofyn am ddeilliannau ysgrifenedig, mae tiwtoriaid yn marcio gwaith yn rheolaidd. Rhoddant sylwadau defnyddiol i ddysgwyr i'w helpu i wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod eang o raglenni sydd wedi'u hanelu'n benodol at hyrwyddo lles a byw'n iach. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau ar fwyta'n iach os yw arian yn brin, dosbarthiadau rheoli pwysau, cymorth cyntaf ac ymarfer corff. Yn ogystal â'r cyrsiau hyn, mae tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth yn gweithredu'n gyson i hybu datblygiad iechyd a lles y person cyfan yn sgil cymryd rhan mewn dysgu

cymunedol. Er enghraifft, mae canolfannau allymestyn mewn ardaloedd arbennig o ddifreintiedig yn cynnig cyngor ac arweiniad ar reoli dyled a gostwng biliau ynni. Mae rhaglenni ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ag anabledau dysgu yn defnyddio tŷ gwydr mawr i ganiatáu i ddysgwyr weithio gyda gwirfoddolwyr i dyfu bwyd, cadw'n weithgar ac yn iach, datblygu medrau ar gyfer byw'n annibynnol, ac i barhau i ddysgu.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ystod o ddulliau effeithiol i roi cyhoeddusrwydd i'w gyrsiau, gan gynnwys llyfryn a luniwyd gan grŵp o ddysgwyr. Mae'n cyfathrebu'n dda â dysgwyr drwy gylchlythyron a chyhoeddiadau'r cyngor, gwefan a chyfryngau cymdeithasol. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau allanol i hyrwyddo digwyddiadau fel Gŵyl Ddysgu Merthyr Tudful ac i ddathlu llwyddiant ei dysgwyr.

Mae tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau cychwynnol a ffynonellau eraill yn gyson i sicrhau bod dysgwyr yn astudio'r cwrs cywir ar y lefel gywir. Mae tiwtoriaid yn rhoi cyngor diduedd ac effeithiol ar sut i fynd ymlaen i gyrsiau pellach a chysiau lefel uwch, yn y bartneriaeth a chyda darparwyr y tu allan i'r bartneriaeth. Mae partneriaid yn cydweithio'n dda iawn i wneud yn siwr bod dysgwyr yn mynd ymlaen i gyrsiau eraill neu i waith.

Mae'r bartneriaeth yn cynllunio'n dda iawn i fodloni anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae pwyslais cryf, yn enwedig mewn rhaglenni dysgu teuluol, ar wneud yn siwr bod rhieni'n meddu ar y medrau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Amgylchedd dysgu: Da

Mae gan y bartneriaeth ethos cadarnhaol o ansawdd ac amrywiaeth, ac mae'n hyrwyddo'r rhain yn dda ymhlith dysgwyr a staff. Mae'n rhoi blaenoriaeth uchel i gynwysoldeb, y mae'n ei rannu yn ei chysylltiadau helaeth ag asiantaethau a sefydliadau yn yr ardal. Mae systemau a gweithdrefnau perthnasol ac effeithiol ar waith gan y bartneriaeth i sicrhau bod staff a dysgwyr yn deall y polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn cydymffurfio â nhw. Mae hyn yn cynnwys llyfryn defnyddiol, 'Stronger Together', sy'n esbonio'r polisïau yn glir ac yn gryno. Mae tiwtoriaid yn defnyddio'r llyfryn hwn yn dda yn eu gwaith gyda dysgwyr. Mae holl staff y bartneriaeth wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae llawer o'r lleoliadau a ddefnyddir ar gyfer dysgu gan y bartneriaeth yn hygyrch i ddysgwyr yn eu hardal leol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt â chyfarpar da a darparant amgylchedd dysgu priodol. Lle bo'r gofyn, mae'r bartneriaeth yn addasu'r safle ar gyfer y dysgwyr hynny ag anabledau. Fodd bynnag, mae angen moderneiddio a chyfarpar newydd ar rai safleoedd. Mae'r bartneriaeth wedi nodi hyn ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer archwiliad llawn o gyfleusterau dysgu.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae cynllunio strategol ym mhartneriaeth dysgu cymunedol Merthyr Tudful yn gryf iawn ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddeiliannau a llwyddiannau eithriadol yr holl ddysgwyr.

Mae'r cynllun strategol ar gyfer dysgu cymunedol yn adnabod a chydabod y berthynas rhwng tlodi a thangyflawniad yn glir iawn. Mae'r nod strategol o gynnig gwasanaeth hollgynhwysol sy'n hybu iechyd a lles ochr yn ochr â dysgu perthnasol i'w weld yn glir ym mhob agwedd ar gynllunio ac mae'n unigryw yn y sector. Mae hyn wedi cyfrannu'n effeithiol iawn at nifer uchel y dysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus.

Mae darparu medrau i ddysgwyr ar gyfer cyflogaeth yn flaenoriaeth uchel iawn ac mae gan y cynllun strategol ganolbwynt cryf ar leihau anweithgarwch economaidd yn y fwrdeistref sirol a gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae gan yr holl bartneriaid ffocws clir ar y meysydd sy'n flaenoriaeth yn y Strategaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion genedlaethol.

Mae'r cynllun strategol ar gyfer dysgu cymunedol yn adlewyrchu gweledigaeth 'Dysgu am Oes' y bwrdd gwasanaethau lleol ar gyfer Merthyr Tudful yn effeithiol. Mae cydlyniant eithriadol rhwng y fformat a'r blaenoriaethau yn y cynllun integredig sengl, y cynllun corfforaethol a'r strategaeth dysgu cymunedol. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ddarparu gwasanaeth cyson, â ffocws, i'r gymuned.

Mae'r cynllun strategol ar gyfer dysgu cymunedol yn nodi nifer o feysydd sy'n flaenoriaethau allweddol i ddysgu oedolion. Mae'r bartneriaeth yn dyrannu'r meysydd hyn i bartneriaid mewn ffordd ystyrlon, yn ôl eu cryfderau a meysydd eu harbenigedd, fel y bo pob partner yn cymryd cyfrifoldeb am faes penodol. Mae rolau, cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn y bartneriaeth yn glir iawn. Mae hyn yn creu lefel uchel o ymddiriedaeth a pharch tuag at ei gilydd yn y bartneriaeth, sy'n caniatáu i bartneriaid herio deilliannau a safonau'n gadarn.

Mae meysydd blaenoriaeth y strategaeth dysgu cymunedol yn dylanwadu ar bob agwedd ar waith y bartneriaeth yn gydlynol iawn. Mae'r dosbarthiadau a'r ddarpariaeth yn cael eu cynllunio a'u cofnodi yn ôl y meysydd â blaenoriaeth yn y cynllun strategol yn hytrach nag yn ôl y darparwr dysgu. Mae hyn yn arfer sy'n arwain y sector. Mae'n caniatáu i'r bartneriaeth fesur effeithlonrwydd y cynllunio i fodloni'r blaenoriaethau strategol yn hawdd. Mae'r ffocws strategol cryf ar ddeiliannau yn ôl meysydd â blaenoriaeth wedi cyfrannu'n dda at lwyddiant a safonau dysgwyr.

Mae gan y bartneriaeth strwythur clir o bwyllgorau ac is-grwpiau sy'n adrodd i Fwrdd y Bartneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion. Mae hyn yn sicrhau bod arbenigedd perthnasol ar gael lle y mae ei angen ac mae'n cyfrannu'n dda iawn at gynnwys yr ystod ehangach o asiantaethau a gwasanaethau fel Gofal Cymdeithasol i Oedolion,

Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Phontydd i Waith yn y cynllunio gweithredol.

Mae'r bartneriaeth yn adrodd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac yn cyflwyno dogfennau perthnasol i bwyllgor craffu'r awdurdod lleol. Mae hyn yn atgyfnerthu monitro, olrhain ac atebolrwydd yn effeithiol.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r Bartneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion ym Merthyr Tudful wedi gwneud cynnydd da iawn yn gwella ansawdd deilliannau dysgwyr yn ogystal ag ansawdd y ddarpariaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r perthnasoedd gwaith cryf a'r cyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau'r bartneriaeth wedi arwain at weithredu systematig gan reolwyr i ysgogi gwelliant.

Mae'r holl bartneriaid yn cyfrannu'n dda at y broses hunanasesu ac mae hyn wedi'i gysylltu'n agos â datblygu gweithredol a strategol ynghyd â chynlluniau gwella ansawdd. Mae'r cynlluniau hyn yn gydlynol ac wedi'u cyd-drefnu'n dda. Mae partneriaid yn ymwybodol iawn o'r heriau y maent yn eu hwynebu o ran gwella ansawdd y ddarpariaeth ymhellach.

At ei gilydd, mae adroddiad hunanasesu'r bartneriaeth yn adroddiad cynhwysfawr o'r sefyllfa bresennol. Mae'n cynnig sylwadau arfarnol, defnyddiol, ac yn cysylltu'n agos â chynllun datblygu'r bartneriaeth. Fodd bynnag, mewn ychydig rannau, mae'n rhy ddisgrifiadol. Mae'r cynllun yn gwneud defnydd da o dystiolaeth uniongyrchol ynghylch safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r cynllun datblygu yn ddigon cryno ac mae'n canolbwyntio'n fanwl ar y blaenoriaethau allweddol er mwyn ysgogi gwelliant. Mae'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau ac mae'r cyfrifoldeb am weithredu yn glir. Mae'r targedau ar gyfer deilliannau yn fesuradwy a realistig. Mae'r cynllun yn cydnabod diffygion yn y trefniadau presennol ar gyfer adrodd i'r bwrdd gwasanaethau lleol a'i nod yw gwneud y trefniadau hyn fwy ffurfiol.

Mae gwrando ar farn dysgwyr yn agwedd bwysig ar strategaeth y bartneriaeth ar gyfer gwella. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio holiaduron a fforymau i ddysgwyr i ymgynghori'n dda â nhw a chael gwybod ymhle yr hoffai'r dysgwyr weld gwelliannau. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu ar sail barn dysgwyr pryd bynnag y bo hynny'n briodol, er enghraifft i wella gallu dysgwyr i gael at wybodaeth am gyrsiau a'u lleoliad. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio canlyniadau arolwg llais y dysgwr yn effeithiol.

At ei gilydd, mae'r bartneriaeth wedi ymateb yn dda i'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu diwethaf yn 2009.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae'r holl bartneriaid ym Mhartneriaeth Dysgu Cymunedol Merthyr Tudful yn gweithio'n eithriadol o dda gyda'i gilydd fel tîm. Maent wedi datblygu cryn ymddiriedaeth, cefnogaeth a pharch ar y ddwy ochr. Mae'r awdurdod lleol ac uwch dîm rheoli Coleg Merthyr yn darparu cymorth strategol effeithiol i'r bartneriaeth. Fodd

bynag, y dull partneriaeth unigryw, sy'n arwain y sector ac sy'n rhannu cyfrifoldeb am y meysydd cyflwyno sydd â blaenoriaeth, sy'n caniatáu i'r partneriaid gefnogi a herio'i gilydd i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddysgwyr.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ystod eang o asiantaethau, cyflogwyr a gwasanaethau cymorth, gan gynnwys prosiectau ieuenctid ac elusennau iechyd meddwl. Cynhaliodd arolwg cynhwysfawr o angen ar draws Merthyr Tudful. Arweiniodd y dadansoddiad o'r angen hwn at y cam mentrus o alinio dysgu cymunedol i oedolion ag ystod ehangach o raglenni i gefnogi teuluoedd a dysgwyr o gymunedau difreintiedig. O ganlyniad, mae'r holl bartneriaid yn canolbwyntio ar gyflogadwyedd, medrau a lles, ac maent yn rhannu gweledigaeth i wella deilliannau yn y meysydd hyn sydd â blaenoriaeth. Er enghraifft, mae'r gwasanaethu dysgu cymunedol i oedolion yn gweithio'n dda ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymorth Teuluol a Magu Plant i ddarparu cysylltiad cynnar ac atgyfeirio teuluoedd sydd angen cymorth â lles neu gymorth addysgol.

Mae'r cymorth cofleidiol a ddarperir gan yr asiantaethau hyn yn caniatáu i rieni symud ymlaen i feysydd dysgu eraill ar adeg briodol, gyda chymorth effeithiol ar waith. Caiff arfer orau ei rhannu'n hwylus ar draws y sectorau dysgu, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, ac mae pob partner yn canolbwyntio ar y canlyniad gorau i'r teulu a'r gymuned.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae'r bartneriaeth yn rheoli ei hadnoddau'n eithriadol o dda i gynnig ystod eang o gyrsiau sy'n berthnasol i anghenion trigolion Merthyr Tudful ac sydd â ffocws clir ar y dysgwr.

Mae'r bartneriaeth yn manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'i chyllid i'r eithaf, gan gynnwys defnyddio cyllid allanol ac adnoddau i wella'i darpariaeth i ddysgwyr. Er enghraifft, caniatodd defnydd effeithiol o gyllid allanol i'r bartneriaeth gefnogi dysgwyr o ardaloedd difreintiedig, â lefel isel o fedrau, i gael dysgu a hyfforddiant a fyddai'n arwain at waith.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi cynnal dadansoddiad bwlch o'i darpariaeth i nodi meysydd i'w gwella. O ganlyniad i hyn, mae'r bartneriaeth wedi buddsoddi adnoddau er mwyn hyfforddi staff i gyflwyno SSIE ac addysg sylfaenol i oedolion. Mae'r bartneriaeth yn barod iawn i rannu arfer orau o ran datblygu staff yn fewnol ac yn allanol, ac mae'n gwneud hynny'n hyderus.

Mae pob un o chwe blaenoriaeth y bartneriaeth yn nodi'n glir y costau a'r adnoddau ar gyfer cyflawni'r deilliannau. Mae'r bartneriaeth yn monitro'r rhain yn fanwl. Er enghraifft, cynhaliodd ymarfer defnyddiol i arfarnu ei chost-effeithiolrwydd o gymharu â phartneriaethau lleol eraill. Hefyd, mae'n mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r gost fesul uned ar gyfer cyflwyno deilliannau i'w dysgwyr. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i reolwyr ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

Mae'r deilliannau i ddysgwyr yn rhagorol ac mae'r darparwr yn cynnig gwerth rhagorol am arian i'w ddysgwyr.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad


Yn 2011-2012, roedd y safonau a gyflawnwyd gan ddysgwyr cymunedol sy'n oedolion ym Merthyr Tudful ymhlith y gorau yn y sector, sef 86.5%. Roedd y cyfraddau llwyddiant ychydig uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol yn 2010-2011 a 2011-2012. Fe wnaeth cyfraddau llwyddiant cyffredinol wella 2.7 pwynt canran rhwng y ddwy flwyddyn honno.

Roedd dysgwyr addysg sylfaenol i oedolion, sylfaen i waith ac SSIE wedi cyflawni cyfraddau llwyddiant a gymharodd yn dda a chyfraddau'r sector yn 2011-2012. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel mynediad a lefel 1 mewn addysg sylfaenol i oedolion yn cwblhau eu cwrs yn llwyddiannus, sydd ymhell uwchlaw'r cyfraddau llwyddiant mewn meysydd eraill. Fe wnaeth dysgwyr SSIE ar lefel mynediad wella'u cyfraddau llwyddiant ychydig dros 30 pwynt canran rhwng 2010 a 2012 ac roedd canlyniadau ymhell uwchlaw canlyniadau gweddill y sector. Fodd bynnag, fe wnaeth yr ychydig iawn o ddysgwyr SSIE ar lefelau 1 a 2 gyflawni cyfraddau llwyddiant ymhell islaw gweddill y sector. Roedd dysgwyr yn y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi hefyd wedi llwyddo'n dda o gymharu â chyfartaledd y sector ac fe wnaethant wella'u deilliannau rhwng 2010 a 2012.

Fodd bynnag, roedd dysgwyr TGCh wedi cyflawni ychydig islaw dysgwyr eraill yn y sector ac fe wnaeth eu cyfraddau llwyddiant ostwng ychydig dros wyth pwynt canran rhwng 2010 a 2012. Yn 2011-2012, roedd nifer bach iawn o ddysgwyr wedi cyflawni cyfraddau llwyddiant a oedd yn anfoddhaol o gymharu â'r cyfraddau yng ngweddill y sector.

Daw hanner o'r holl ddysgwyr ym Merthyr Tudful o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol. Mae hyn ddwywaith y cymharydd cenedlaethol. Mae'r dysgwyr hyn yn llwyddo'n dda ar y rhan fwyaf o lefelau o gymharu â dysgwyr o ardaloedd tebyg ar hyd a lled Cymru, ac maent yn llwyddo cystal â dysgwyr eraill ym Merthyr Tudful. Mae bron 40% o ddysgwyr ym Merthyr Tudful yn ddynton. Dyma ganran uwch nag mewn ardaloedd eraill. Cyflawnodd dysgwyr gwrywaidd ym Merthyr Tudful gyfraddau llwyddiant gwell yn 2011-2012 na dysgwyr gwrywaidd mewn ardaloedd eraill, gan wella eu cyfraddau llwyddiant ychydig dros wyth pwynt canran o 2010-2011. Cyflawnodd dysgwyr gwrywaidd ym Merthyr Tudful gyfraddau llwyddiant gwell na dysgwyr benywaidd yn 2011-2012.

Ffigur 1. Cyfraddau llwyddiant cyffredinol ym Merthyr Tudful o gymharu â'r sector



Atodiad 2

Bodddhad dysgwyr

Defnyddiwn ddeilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i hysbysu ein holl arolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae Llais y Dysgwr yn arolwg o foddhad dysgwyr a gynhelir gan Lywodraeth.

Mae'r arolwg yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau i ddysgwyr ar y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir iddynt;
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddiant; a
- bodddhad cyffredinol.

Mae pob thema'n cynnwys ystod o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr roi sgôr i berfformiad eu darparwr.

Llenwyd yr arolwg gan 173 o oedolion sy'n ddysgwyr ym Merthyr Tudful. Mae sampl yr arolwg yn cymharu'n dda â phoblogaeth dysgwyr y darparwr. Dywedodd chwe deg tri y cant o'r ymatebwyr fod y bartneriaeth yn dda iawn at ei gilydd. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y sector, sef 60%. Dywedodd 18% arall fod y bartneriaeth yn dda yn gyffredinol. Roedd 95% o ymatebwyr o'r farn bod eu cwrs yn well na'r disgwyl. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd y sector.

At ei gilydd, mae llawer o ddysgwyr o'r farn bod perfformiad y bartneriaeth yn 'dda iawn' ar draws yr holl themâu allweddol. Cyflawnodd y bartneriaeth sgorau uwch na chyfartaledd y sector ym mhob un o'r pum thema. Mae rhwng 17% ac 20% arall o ymatebwyr o'r farn bod y bartneriaeth yn 'dda'.

Mae'r bartneriaeth yn cyflawni sgorau ar gyfer 'da iawn' sydd ymhlith yr uchaf yn y sector ar draws y rhan fwyaf o'r cwestiynau. Mae'r sgorau ar gyfer 'da iawn' ychydig yn is mewn ymateb i ychydig o'r cwestiynau yn y thema addysgu a hyfforddi, ond at ei gilydd, roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn ystyried bod addysgu a hyfforddi yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Mae'r arolwg yn dadansoddi ymatebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig hefyd – rhywedd, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Yn gyffredinol, mae'r bartneriaeth yn cyflawni sgorau 'da iawn' uwch na chyfartaledd y sector ar draws pob demograffeg allweddol ar gyfer pob cwestiwn. Fodd bynnag, mae dysgwyr 65 oed a hŷn yn rhoi sgorau is na chyfartaledd y sector mewn llawer o'r cwestiynau ac mae dysgwyr ethnig lleiafrifol hefyd yn rhoi sgorau is mewn ychydig o'r cwestiynau. Mae hyn yn arbennig o wir mewn addysgu a hyfforddi. Fodd bynnag, mae hyn yn cynrychioli barn 32 o ddysgwyr – 19% o'r sampl gyfan.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Gill Sims	Arolygydd Cofnodol
Liam Kealy	Arolygydd Tîm
Steve Bell	Arolygydd Tîm
Eleanor Davies	Arolygydd Tîm
Penny Lewis	Arolygydd Tîm
Ann Jones	Arolygydd Tîm
Bernard O'Reilly	Arolygydd Tîm
Margaret Ann Griffiths	Arolygydd Tîm
Phil Southard	Arolygydd Cymheiriaid
Ian Benbow	Enwebai'r Darparwr